

Bwletin Awdurdod S4C **– Mai 2003**

CYFARFOD AGORED – LLANELLI

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Iau, 24 Ebrill 2003 yn Llanelli a bu dros 70 o bobl yn bresennol. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elan Closs Stephens, Cadeirydd S4C, a bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Roedd Aelodau eraill yr Awdurdod hefyd yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i gael sgwrs anffurfiol â'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfod. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd:

Pobol y Cwm

Codwyd y ffaith bod yna nifer o bobl yn cwyno ynglyn â'r ffaith bod S4C wedi newid amser yr oedd yn darlledu'r sebon opera hwn. Ymatebodd Huw Eirug drwy ddweud taw nid ar chwarae bach newidiwyd yr amserlen. Gwnaethpwyd y penderfyniad oherwydd dros y blynyddoedd roedd patrwm gwyllo wedi newid a bod pobl bellach yn gwyllo'n hwyrach yn y noson. Hefyd ni chredwyd y byddai'n gwneud synnwyr i rhoi'r rhaglen yn erbyn operâu sebon eraill megis *Coronation Street* ac *Eastenders* ac roedd hyn hefyd, felly, yn rheswm pam nad oedd *Pobol y Cwm* yn cael ei darlledu ar yr un amseroedd yn ystod yr wythnos. *Pobol y Cwm* oedd dal i fod rhaglen fwyaf poblogaidd ar S4C a gobeithiwyd hefyd y byddai'r newid amser hefyd yn arwain pobl i aros gyda S4C i wyllo rhaglenni fyddai'n ei dilyn. Holwyd a oedd y nifer o wylwyr wedi cynyddu yn sgil y newid ac atebwyd bod y ffigurau, hyd yn hyn, yn debyg i'r hyn yr oeddynt cyn y Nadolig. Gofynnwyd i'r gynulleidfa faint fyddai ohonynt fyddai'n well ganddynt amser darlledu 7pm a faint 9pm. Roedd y gynulleidfa wedi'i rannu hanner yn hanner ar y mater ond y neges gryfaf oedd bod angen cysondeb pa bynnag amser roedd y rhaglen yn cael ei dangos.

Hysbysebion

Gofynnodd un gwr pam yr oedd yn rhaid iddo ddirodd hysbysebion, yn enwedig ynghanol rhaglenni wedi'u darparu gan y BBC, megis *Pobl y Cwm*. Atebodd Huw Jones taw'r incwm o hysbysebion oedd un o'r ffyrdd yr oedd S4C yn gorfod dibynnu arnynt ar gyfer ei harian. Roedd 15% o incwm S4C yn dod o'r cyfeiriad yma. Nodwyd bod y patrwm hwn o ariannu yn un oedd yn gyffredin iawn yn Ewrop.

Pawb a'i Farn

Holwyd pam roedd *Pawb a'i Farn* ond yn ymddangos am chwe wythnos yn yr haf (gyda'r eithriad pan yr oedd yna etholiad) a pham nad oedd ar gael drwy gydol y flwyddyn. Atebodd Huw Eirug y byddai'r gyfres nesaf yn dechrau ym mis Medi pan fyddai'r Cynulliad yn ailgychwyn ac nid oedd yn fwriad i ddarlledu yn yr haf yn y dyfodol. Mor belled ag oedd y nifer o raglenni o fewn yn gyfres yn y cwestiwn roedd

hyn yn fater oedd ar hyn o bryd o dan drafodaeth gyda'r BBC. Soniodd aelod o'r gynulleidfa fod *Question Time* ar y BBC ymlaen trwy gydol y flwyddyn ac awgrymwyd y dylid cael trefn debyg ar gyfer *Pawb a'i Farn*. Cydnabuodd Huw Eirug y pwynt ond crybwyllodd fod yna le i ofyn a oedd yna ddigon o gyfranwyr ar gael i fedru cynnal cyfres mor hir â hyn - roedd y nifer o unigolion Cymraeg ei hiaith y gellid galw arnynt yn gyfyngedig. Gofynnodd Huw Eirug os oedd yn well gan y gynulleidfa gadw at wleidyddion yn unig fel gwesteion neu a oedd yn well ganddynt gymysgedd gyda rhai 'celebs' ar y panel. Cafwyd yr ymateb taw cymysgedd oedd orau gan bod yna fodd clywed barn rhai nad oedd yn glynu at safbwynt y prif bleidiau gwleidyddol.

Rhaglenni Plant/Teulu

Holwyd pam yr oedd yna raglenni Saesneg yn cael ei dangos rhwng diwedd darllediad Planed Plant am 5pm a *Rownd a Rownd* oedd yn cychwyn am 6.30pm. Dywedodd Huw Eirug fod *Rownd a Rownd* yn cael ei darlledu am 6.30pm oherwydd bod yna gyfle iddi gael fwy o wylwyr am yr amser yma yn enwedig gan ei bod yn rhaglen oedd nid yn unig yn apelio at blant ond hefyd at oedolion. Ychwanegodd Elan Closs Stephens fod gan S4C ddyletswydd hefyd i ddangos rhaglenni Channel 4 ar y gwasanaeth analog. Aeth Huw Eirug ymlaen i ofyn am farn y gynulleidfa am raglenni plant. Atebwyd bod ansawdd y rhaglenni hyn wedi gwella ond dymunwyd gweld mwy o raglenni fyddai'n addas ar gyfer plant o'r oedran 8-11. Roedd yna hefyd ddymuniad bod yna fwy o oriau raglenni plant yn cael eu darlledu.

Talwrn y Beirdd

Holwyd pam yr oedd S4C wedi rhoi'r gorau i *Talwrn y Beirdd*. Atebodd Huw Eirug taw'r gwirionedd oedd mai rhaglen oedd yn gweddu'n fwy ar gyfer y radio na theledu oedd hon. Roedd teledu yn gyfrwng lle'r oedd llun yn bwysig ac felly nid oedd y rhaglen hon yn addas o'r profiad gweledol roedd yn ei gynnig. Yn dilyn hyn holwyd pam nad oedd yna raglen cwis tebyg i *Question of Sport* ar S4C. Soniodd Huw Eirug fod yna drafodaeth yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd ar gyfer cynhyrchu cwis o'r fath. Er hynny, roedd S4C yn derbyn beirniadaeth o bryd i'w gilydd gan bobl oedd yn credu ei bod yn copïo fformatau rhaglenni Saesneg ac, felly, roedd angen darganfod ffordd Gymreig o gynhyrchu rhaglen o'r fath yma.

Eisteddfod

Gofynnwyd pam nad oedd y darllediad estynedig o'r Eisteddfod ar gael ar analog yn ogystal â digidol gan nid oedd digidol gan bawb. Esboniodd Huw Jones fod yr un faint o oriau o'r Eisteddfod yn cael ei ddarlledu ar analog ag erioed. Y gwahaniaeth oedd bod y sianel ddigidol yn cynnig y cyfle i ddarlledu mwy o'r Eisteddfod tra roedd dal i fod dyletswydd ar S4C i ddarlledu rhaglenni Channel 4 ar y sianel analog. Os oedd pobl yn dymuno gweld mwy o'r Eisteddfod felly, trefnu i gael digidol oedd yr ateb a thynnwyd sylw at y ffaith ei bod hi'n dod yn gynyddol rhatach a haws o safbwynt prynu offer i fedru derbyn y gwasanaethau digidol.

Chwaraeon

Holwyd pam yr oedd S4C yn dangos gemau cyfandirol ar *Sgorio* ond nid pêl-droed Cymru. Atebodd Huw Eirug fod S4C o'r farn bod dangos gemau timoedd megis Real Madrid yn beth da – nid oedd pobl yn Lloegr yn cael y cyfle yma. Roedd *Le Rygbi* yn gwneud swydd debyg lle'r oedd gemau clybiau rygbi Ffrainc, oedd o'r safon uchaf, ar gael i'w gweld. Ni theimlwyd y dylai S4C, felly, ymddiheuro am ddangos y gemau gorau o Ewrop.

Mas o Diwn

Gofynnwyd pam yr oedd S4C wedi rhoi'r gorau i ddarlledu'r rhaglen hon. Dywedodd Huw Eirug nad oedd gan S4C gynlluniau i ddod â'r rhaglen hon yn ôl. Gwelwyd bod ganddi faes rhy gyfyng ac mai dim ond pobl oedd â diddordeb mewn cerddoriaeth glasurol a chorawl oedd yn ei gwyllo.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben trwy ddiolch i'r rheiny yn y gynulleidfa am fynychu. Roedd yn dda i weld bod cynifer o bobl wedi mynychu. Wedi'r cyfarfod cafodd y gynulleidfa y cyfle i gael taith o gwmpas stiwdios Tinpolis ac ar ôl hynny sgwrs anffurfiol dros ddysglaid o de gydag Aelodau Awdurdod S4C a hefyd swyddogion.

CYFARFOD BUSNES – LLANELLI – 25 EBRILL 2003

Apêl Elusen S4C

- (a) Diolchwyd i'r Aelod, Nic Parry, am fynychu digwyddiad elusennol diweddar ym Mlaenau Ffestiniog ac am gyflwyno'r siec i Shelter Cymru dros apêl elusen S4C ar gyfer 2002. Nodwyd bod y digwyddiad wedi bod yn un llwyddiannus a bod Shelter wedi mynegi gwerthfawrogiad mawr nid yn unig am yr arian ei hun ond hefyd am yr holl gyhoeddusrwydd yr oedd yr elusen wedi'i gael yn sgil apêl S4C dros y flwyddyn ddiwethaf.
- (b) O ran apêl eleni, nodwyd bod Iolo Williams yn gwneud taith gerdded o'r gogledd i'r de. Ynghlwm wrth hwn yr oedd yna ddau ginio yn cael eu cynnal – y cyntaf ar 13 Mehefin yn y Gogledd a'r llall ar 26 Mehefin yng Nghaerdydd.

Mesur Cyfathrebu

- (a) Cytunwyd y dylid paratoi papur ar gyfer yr Aelodau yn gosod allan yn glir y cysylltiadau rhwng yr Awdurdod ac OFCOM ac amlinelliad o'r amserlen ar gyfer sefydlu OFCOM o hyn ymlaen. Teimlwyd ei bod hi'n bwysig bod yr Awdurdod mewn sefyllfa i fynegi sylwadau cyn i benderfyniadau terfynol gael eu cymryd ar y drefn rheoleiddio newydd yng Nghymru.

- (b) Nodwyd bod Sue Balsom wedi ei phenodi fel yr aelod i gynrychioli Cymru ar Fwrdd Cynnwys OFCOM. Roedd yn fwriad i'w gwahodd i S4C am gyfarfod wedi iddi ddechrau ar ei dyletswyddau. Nodwyd y byddai cyfarfod cyntaf y Bwrdd Cynnwys yn cael ei gynnal rhywbryd yn ystod mis Mai.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2003.

Buddsoddwyr Mewn Pobl

Llongyfarchwyd yr holl staff ar ennill gwobr Buddsoddwyr Mewn Pobl am yr eildro. Nodwyd bod S4C nid yn unig wedi ei hail gipio ond ei bod wedi gwneud hynny yn dda gydag adroddiad llafar gan yr asesydd oedd yn ganmoliaethus iawn

TAC

Nodwyd bod cyfarfod wedi'i gynnal rhwng swyddogion S4C a Chadeirydd, Prif Weithredwr a rhai o aelodau Pwyllgor TAC ar 1 Ebrill 2003. Cyfeiriwyd at y ffaith bod y drefn o gynnal cyfarfod yn rheolaidd rhwng yr Awdurdod S4C a Chyngor TAC wedi syrthio a chytunwyd y dylid edrych i weld a fyddai'n bosibl i ail sefydlu hyn.

Y Cyfarwyddwr Peirianeg a Thechnoleg

Fe wnaeth yr Awdurdod longyfarch Arshad Rasul, Cyfarwyddwr Peirianeg a Thechnoleg S4C, ar gael ei wneud yn Gymrawd o'r 'Institute of Electrical Engineers'

Adroddiad Blynyddol 2002

Ystyriodd yr Aelodau y testun drafft at gyfer Adroddiad Blynyddol 2002. Croesawyd y ffaith bod yr adroddiad yn fwy siarp i gymharu ag Adroddiad Blynyddol 2001. Wrth drafod, cynigiodd yr Aelodau rai newidiadau i'r testun, yn bennaf ar yr adran ar raglenni. Ar yr amod bod ystyriaeth yn cael ei roi i sylwadau'r Aelodau, cytunwyd y dylid cymeradwyo'r testun ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2002. Nodwyd y byddai'r DCMS hefyd yn cael cyfle i gynnig sylwadau ar y drafft.

Cynllun Corfforaethol 2003-05 – Adolygiad Chwarterol

Derbyniwyd yr adroddiad ar gynnydd yn erbyn y targedau yn y Cynllun Corfforaethol 2003-05. Nid oedd yna unrhyw beth penodol i dynnu sylw ato ar ddiwedd chwarter cyntaf y flwyddyn.

Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Penodiadau OFCOM
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 11 Ebrill 2003
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol